



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

# Lwfansau i Fyfrwyr Anabl

Dyddiad cyhoeddi: 15<sup>th</sup> Tachwedd 2019  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 17<sup>th</sup> Chwefror 2020

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.  
This document is also available in Welsh.

**Trosolwg** Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ynghylch newidiadau arfaethedig i Lwfansau i Fyfirwyr Anabl.

**Sut i ymateb** Dylid e-bostio/postio ymatebion ar gyfer yr ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod erbyn 17<sup>th</sup> Chwefror 2020.

**Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig** **Mae fersiwn print mawr, fersiwn Braille a fersiynau mewn ieithoedd eraill i'w cael ar gais.**

Adroddiad terfynol York Consulting:

<https://llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil? ga=2.134561909.580042105.1569838900-1725831130.1542805267>

Hysbysiadau Gwybodaeth Cyllid Myfirwyr Cymru ynghylch adolygiad polisi o Lwfansau i Fyfirwyr Anabl:

<http://www.studentfinancewales.co.uk/media/195156/sfwin-04-2015-update-on-dsas-policy-review-ay-2016-17.pdf>

<http://www.studentfinancewales.co.uk/media/9266/proposed-changes-to-the-disabled-students-allowances-for-academic-year-2016-17.pdf>

Tudalennau gwe Cyllid Myfirwyr Cymru:

<https://www.cyllidmyfirwryrcymru.co.uk/>

**Manylion cyswllt** I gael mwy o wybodaeth:

Cyfeiriad e-bost: [HEDConsultationsMailbox@gov.wales](mailto:HEDConsultationsMailbox@gov.wales)

Cyfeiriad: Yr Is-adran Addysg Uwch

Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

## Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu

Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD,

CF10 3NQ

e-bost: [Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

## Cynnwys

	<b>Tudalen</b>
Cyflwyniad	6
Yr achos dros newid	8
Ein cwestiynau	12

## Cyflwyniad

1. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo symudedd cymdeithasol ac ehangu mynediad at addysg uwch. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â pharhad cymorth ariannol i fyfyrwyr anabl sy'n hanu o Gymru ac sy'n dilyn cyrsiau gradd a chysiau ôl-radd yn y DU.
2. Grantiau nad oes angen eu had-dalu yw Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl, ac nid ydynt yn ddibynnol ar brawf modd. Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018<sup>1</sup> a Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019<sup>2</sup> yn nodi bod modd dyfarnu Lwfansau o'r fath i fyfyrwyr cymwys er mwyn cyfrannu at, neu dalu'n llwyr, y costau gallan nhw eu hwynebu o ganlyniad uniongyrchol i'w hanabledd, eu cyflwr iechyd hirdymor, eu cyflwr iechyd meddwl neu eu hanhawster dysgu penodol. Mae hyn yn cynnwys darparu gweithiwr cymorth personol, prynu cyfrifiaduron a chyfarpar arbenigol, a chynorthwyo gyda chostau teithio fel bo angen.
3. Ar hyn o bryd ceir pedwar lwfans<sup>3</sup>:
  - Lwfans cynorthwydd anfeddygol (hyd at £22,472 y flwyddyn)
  - Cyfarpar arbenigol (hyd at £5,657 ar gyfer y cwrs cyfan)
  - Lwfans cyffredinol ar gyfer pob gwariant arall sy'n gysylltiedig â'r anabledd, yn cynnwys ffi asesu anghenion (hyd at £1,894 y flwyddyn)
  - Gwariant ychwanegol a ddaw i ran myfyrwyr wrth fynychu sefydliad, er enghraifft costau teithio.
4. Mae Lwfans i Fyfyrwyr Anabl ôl-raddedig i'w gael hefyd er mwyn helpu i dalu'r costau ychwanegol hanfodol a ddaw i ran myfyrwyr cymwys o ganlyniad uniongyrchol i'w hanabledd ar gyfer astudio cwrs ôl-radd llawn amser neu ran

---

<sup>1</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2018/191/contents/made>

<sup>2</sup> <https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2019/235/part/6/made>

<sup>3</sup> Mae'r uchafsymiau'n ymwneud ag astudiaethau llawn amser ym mlwyddyn academiaidd 2018/19 a 2019/20 a gellir dod o hyd iddyn nhw yn y Rheoliadau Diwygiadau Amrywiol trwy ddefnyddio troednodyn 2. Gellir dod o hyd i'r uchafsymiau ar gyfer astudiaethau rhan-amser ym mlwyddyn academiaidd 2019/20 yma: <https://www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk/myfyrwyr-israddedig/myfyrwyr-rhan-amser/myfyrwyr-newydd-201920/lwfansau-myfyrwyr-anabl.aspx>

amser. Mae'r cynllun Lwfansau i Fyfirwyr Anabl ôl-raddedig, a nodir yn Atodlen 4 y Rheoliadau, yn dilyn yn agos y cynllun ar gyfer myfirwyr gradd, ond mae'n darparu un Lwfans o hyd at £20,000 ar gyfer y flwyddyn academaidd.

5. Ym mhob achos pan gaiff myfirwyr eu hystyried yn gymwys i gael cymorth, rhaid i'w hanabledd gyd-fynd â'r diffiniad o 'anabl' a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a rhaid iddyn nhw gyflwyno tystiolaeth feddygol neu ddiagnostig i ategu eu cais.
6. Mae ffigurau diwedd Rhagfyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18 a gyhoeddwyd gan y Student Loans Company<sup>4</sup> (SLC) yn dangos bod £7.6m wedi ei dalu ar ffurf cymorth Lwfansau i Fyfirwyr Anabl i fyfirwyr llawn amser sy'n hanu o Gymru.
7. Fel rhan o'r broses, gellir talu Lwfans y myfyriwr i amrywiaeth o gyflenwyr fel bo'n briodol, er enghraifft:
  - Canolfannau Asesu Anghenion Astudio
  - Cynorthwywyr anfeddygol
  - Darparwyr Technoleg Gynorthwyol
8. Gyda'r dymuniad i sicrhau bod anghenion myfirwyr anabl yn parhau i gael eu diwallu trwy system gymorth symlach, mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ynglŷn â gweithredu newidiadau arfaethedig i Lwfansau i Fyfirwyr Anabl.
9. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn ein helpu i ystyried sut gellir gwella a chynnal ansawdd y cymorth i fyfirwyr; rhoi mynediad cyflymach at gymorth; cyflawni gwell gwerth am arian a gweld beth yw'r ffordd orau o ddarparu'r cymorth.

---

<sup>4</sup> <https://www.gov.uk/government/statistics/student-support-for-higher-education-in-wales-2018-update>

Os caiff y newidiadau eu mabwysiadu, byddwn ni'n gweithio gyda'r Student Loans Company i sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer myfyrwyr llawn amser, rhan amser ac ôl-radd (yn cynnwys dysgu o bell), cyn gynted â phosibl.

## Yr achos dros newid

10. Mae Lwfansau i Fyfrwyr Anabl wedi bod ar gael ers 1974. Cyflwynwyd 4 lwfans ar wahân ym 1990.
11. Ym mis Ebrill 2014, mewn ymateb i ymgais gan y Llywodraeth i ail-gydbwysu cyfrifoldebau rhwng cyllid y Llywodraeth a chymorth sefydliadol, cyhoeddodd yr Adran Addysg newidiadau i'r polisi yn Lloegr. Yn dilyn eu cyhoeddiad, cafwyd peth trafodaeth yn y sector addysg uwch ynghylch y cymorth a roddir trwy gyfrwng Lwfansau i Fyfrwyr Anabl, yn enwedig y gorgyffwrdd rhwng y ddyletswydd benodol a roddir ar sefydliadau i wneud addasiadau rhesymol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r cyllid a roddir ar sail unigol trwy Lwfansau i Fyfrwyr Anabl.
12. Gellir dod o hyd i fanylion y newidiadau polisi, a ddaeth i rym ym mlwyddyn academaidd 2016/17 yn Lloegr, yma: <http://www.practitioners.slc.co.uk/exchange-blog/2016/march/201617-disabled-students-allowance-policy-changes-reference-guide/>.
13. Ym mis Mawrth 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFWIN 01/2015<sup>5</sup>) yn cynnig newidiadau i'r polisi Lwfansau i Fyfrwyr Anabl yng Nghymru, i gyd-fynd â'r newidiadau arfaethedig yn Lloegr.
14. Fodd bynnag, ar ôl ystyried yr ymatebion a gafwyd, penderfynodd Gweinidogion Cymru beidio â chyflwyno unrhyw newidiadau arfaethedig ar gyfer blwyddyn

---

<sup>5</sup> <https://www.studentfinancewales.co.uk/media/9266/proposed-changes-to-the-disabled-students-allowances-for-academic-year-2016-17.pdf>



academaidd 2016/17, a chytunwyd byddai adolygiad ehangach ac ymgynghoriad cyhoeddus yn cael eu cynnal mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer gwella polisi a phrosesau Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl yng Nghymru.

15. Er mwyn helpu i lywio'r adolygiad a chyfarwyddo'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn, sefydlodd Llywodraeth Cymru Weithgor Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl; roedd yr aelodau'n cynnwys GIG Cymru, y Student Loans Company, Cymdeithas Genedlaethol yr Ymarferwyr Anabledd, Rhwydwaith Cenedlaethol y Canolfannau Asesu, UCM Cymru, Prifysgolion Cymru, Prifysgol Agored Cymru, Aseswyr Annibynnol a darparwyr Technoleg Gynorthwyol – gwahoddwyd aelodau *ad hoc* i gynnig barn strategol/gweithredol ehangach fel bo'r angen.

16. Ymhellach, yn gynnar yn 2017 aeth Llywodraeth Cymru ati i gomisiynu York Consulting i gynnal adolygiad o effeithiolrwydd Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl yng Nghymru. Dyma oedd prif nodau'r adolygiad:

16.1 adolygu darpariaeth Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl a'r trefniadau ar gyfer darparu cymorth ariannol i fyfyrrwyr ar gyrsiau Addysg Uwch dynodedig a chanddyn nhw anabledd, cyflwr iechyd hirdymor, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol a

16.2 datblygu ac ystyried dewisiadau ar gyfer gwella'r trefniadau presennol.

Caiff yr adroddiad llawn ei gyhoeddi yma <https://llyw.cymru/adolygiad-or-lwfansau-i-fyfyrrwyr-anabl>

17. Cynhaliwyd adolygiad York Consulting rhwng Ebrill 2017 a Gorffennaf 2017. Mae'r casgliadau a'r argymhellion yn yr adroddiad wedi cael eu hystyried ac maen nhw wedi llywio'r cynigion yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

18. Mae rhai o'r argymhellion, sydd â'r nod o wella siwrnai cwsmeriaid, hygyrchedd a gohebiaeth, eisoes wedi eu rhoi ar waith mewn partneriaeth â'r Student Loans Company (SLC) y tu allan i'r ymgynghoriad hwn. Mae'r rhain yn cynnwys gwell cyfathrebu gyda sefydliadau; cyflwyno elfen ar-lein yn y broses ymgeisio; creu

system tracio cynnydd ar gyfer myfyrwyr; a gwella'r llythyr hawliau DSA2. Mae'r gwaith ar y rhain y parhau.

19. Hefyd, ers cyflwyno newidiadau i'r ddarpariaeth a'r cyllid yn Lloegr, aeth yr Adran Addysg ati i gomisiynu IFF Research i werthuso pa mor briodol yw'r model presennol ac asesu i ba raddau mae Lwfansau i Fyfrwyr Anabl yn cyrraedd eu nod. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwnnw ym mis Ionawr 2019<sup>6</sup>.

20. Ymhellach, yn ddiweddar mae'r Adran Addysg wedi rhoi gwybod am eu bwriad i dendro am y gwasanaeth Asesu Anghenion a'r gwasanaeth Hyfforddiant a Thechnoleg Gynorthwyol. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno bydd myfyrwyr Cyllid Myfyrwyr Cymru yn rhan o'r tendr ar gyfer Hyfforddiant a Thechnoleg Gynorthwyol, mae wedi cadarnhau na fyddan nhw'n rhan o'r tendr ar gyfer Asesu Anghenion.

21. Bu'r Gweithgor Lwfansau i Fyfrwyr Anabl yn ystyried amrywiaeth o gynigion a fyddai'n bodloni egwyddorion yr adolygiad. Roedd y rhain yn cynnwys:

- symleiddio a gwella polisi a phrosesau Lwfansau i Fyfrwyr Anabl;
- cynnal ansawdd y gwasanaeth i fyfrwyr;
- cyflawni gwerth am arian.

22. Cytunodd y Grŵp y dylid ystyried ymhellach nifer o'r syniadau a gyflwynwyd, ac o ran argymhellion adroddiad York, mae'r rhain yn sail i'r cwestiynau a gaiff eu cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn.

23. Ymhellach, argymhellodd y Grŵp yr egwyddorion canlynol:

23.1 Dylai'r cymorth ddiwallu anghenion y myfyrwyr – dim mwy, dim llai. Mae darparu mwy o gymorth na'r angen yn groes i safonau academaidd trwy atal datblygiad dysgu annibynnol a chreu problemau o ran mynd yn ddibynnol.

---

6

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/770546/Evaluation\\_of\\_DSAs\\_Report\\_IFF.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/770546/Evaluation_of_DSAs_Report_IFF.pdf)

23.2 Byddai gwella'r broses bontio rhwng ysgol/Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn cael effaith gadarnhaol ar fyfyrwyr anabl. Mae angen rheoli disgwyliadau er mwyn i fyfyrwyr ddeall mai nod y cymorth yw gweithio tuag at ddysgu annibynnol.

23.3 Dylai disgwyliadau a roddir ar ddarparwyr Addysg Uwch ystyried amrywiaeth poblogaeth y sefydliad o fyfyrwyr.

23.4 Dylid ystyried effaith y newidiadau polisi yn Lloegr wrth gyflwyno newidiadau polisi yng Nghymru oherwydd materion trawsffiniol.

23.5 Dylid annog darparwyr Addysg Uwch i rannu arferion gorau wrth symud tuag at ddarparu cyrsiau ac addysgu mewn modd mwy cynhwysol.

Yn anffodus, oherwydd y ffordd mae systemau'r llywodraeth yn gweithio wrth gyflwyno newidiadau, ynghyd â sawl mater brys arall yn ymwneud â chyllid myfyrwyr, ni fu modd blaenoriaethu'r gwaith hwn fel y bwriadwyd yn 2018. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i fyfyrwyr ar y gwaith a gafodd ei wneud i ategu'r adolygiad a datblygu'r ymgynghoriad hwn, ac mae o'r farn fod yr angen am newid mor daer ag erioed a bod rŵan yn adeg fwy amserol i frwr ymlaen â'r ymgynghoriad a cheisio gwelliannau pellach i'n system Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl.

## EIN CWESTIYNAU

**Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio Rheoliadau Cymorth i Fyfirwyr (Cymru) a chanllawiau polisi'n ymwneud â Lwfansau i Fyfirwyr Anabl.**

Sylwer: er ein bod yn sylweddoli gall rhai o'r newidiadau arfaethedig gael effaith ariannol ac effaith o fath arall ar ddarparwyr Addysg Uwch, cyflenwyr a rhanddeiliaid eraill sy'n gysylltiedig â Lwfansau i Fyfirwyr Anabl, gofynnwn i'r sylwadau ganolbwyntio ar yr effaith ar fyfirwyr.

**C1**

**Ydych chi'n cytuno byddai un lwfans yn well na phedwar lwfans ar wahân?**

Rydym yn cwestiynu'r angen i gael pedwar lwfans ar wahân a byddem ni'n croesawu eich barn ynghylch a fyddai un lwfans cyffredinol yn gweithio. Ni fyddai hyn yn arwain at lai o gymorth; byddai'r cymorth yn parhau i fod ar gael, yn seiliedig ar yr hyn mae'r myfirwyr ei angen i gwblhau eu cyrsiau, ond hyd at uchafswm gwerth trothwyon y lwfansau cyfunol.

Byddai'r newid hwn yn symleiddio'r broses i'r myfirwyr wrth iddyn nhw wneud cais am gymorth a hefyd i Cyllid Myfirwyr Cymru wrth ddyrannu cymorth.

Dyma'r pedwar lwfans (ar gyfer myfirwyr llawn amser):

- Lwfans ar gyfer cynorthwydd anfeddygol (hyd at £22,472 y flwyddyn)
- Cyfarpar arbenigol (hyd at £5,657 ar gyfer y cwrs cyfan)
- Lwfans cyffredinol ar gyfer gwariant arall sy'n gysylltiedig â'r anabledd (hyd at £1,894 y flwyddyn)
- Gwariant ychwanegol a ddaw i ran myfirwyr wrth fynychu sefydliad, er enghraifft costau teithio.

Ac eithrio'r lwfans cyffredinol, ni chaiff myfirwyr ddefnyddio'r cyllid sydd wedi ei neilltuo ar gyfer un lwfans tuag at gostau a ddaw i'w rhan dan lwfans arall. Mae hyn yn cyfyngu ar y cymorth gall myfirwyr gael gafael arno mewn rhai meysydd.

Rydym yn cynnig mwy o hyblygrwydd i'r myfyrwyr hynny sy'n cyrraedd uchafswm y cymorth sydd ar gael iddyn nhw mewn categori lwfans arbennig, ond nad ydyn nhw'n defnyddio neu'n cyrraedd uchafswm y cymorth sydd ar gael mewn perthynas â lwfansau eraill. Rhaid i'r myfyrwyr hyn naill ai dalu costau'r cymorth eu hunain, dod o hyd i ffynonellau cyllid eraill (cronfeydd dewisol darparwyr Addysg Uwch fel arfer) neu ymdopi heb y cymorth ychwanegol maen nhw ei angen.

Yn hytrach na rhoi pedwar lwfans ar wahân, byddem ni'n rhoi un lwfans/pecyn anabledd hyd at uchafswm cyffredinol i fyfyrwyr cymwys. Byddai'r cyfanswm hwn yn seiliedig ar y symiau uchaf a roddir ar hyn o bryd i fyfyrwyr trwy gyfrwng y pedwar lwfans ar wahân.

Byddai'r un pecyn ar gael i fyfyrwyr ôl-raddedig cymwys, gan gydnabod nad yw anabledd myfyrwyr yn newid rhwng eu statws fel myfyriwr gradd a'u statws fel myfyriwr ôl-radd. Byddai'r uchafswm cyffredinol yn cael ei roi ar sail *pro rata* i fyfyrwyr rhan amser.

Roedd Ymchwil York yn cwestiynu pa mor berthnasol yw cael terfyn uchaf ar gyfer cymorth anfeddygol.

**Argymhelliad York:** "er mwyn sicrhau na fydd unrhyw fyfyriwr dan anfantais, dylai Llywodraeth Cymru adolygu pa mor berthnasol yw cael terfyn uchaf ar gyfer darparu cynorthwyydd anfeddygol ar gyfer y myfyrwyr hynny sydd ag anableddau arbennig, lle nad yw'r terfyn uchaf yn ddigonol [Dim ond rhan fechan o gyfanswm yr hawl a ddefnyddir gan y rhan fwyaf o fyfyrwyr.]"

Yn ôl yr adroddiad "gwnaed sylwadau cyffredinol gan ymarferwyr ynglŷn â'r trothwy uchaf ar gyfer darparu cymorth anfeddygol. Caiff y rhan fwyaf o fyfyrwyr eu hargymell ar gyfer swm sy'n llawer is na'r uchafswm, ac felly nid ydyn nhw'n defnyddio'r holl swm sydd ar gael ar gyfer cymorth anfeddygol. Fodd bynnag, ar gyfer nifer fechan iawn o fyfyrwyr sydd â nam ar eu golwg neu nam ar eu clyw ac anghenion lefel uchel eraill, daeth yr arian i ben a bu'n rhaid i ddarparwyr Addysg Uwch gyfrannu cyllid ychwanegol."

Yn hytrach na chael gwared â'r terfyn uchaf ar gyfer cymorth anfeddygol, rydym yn awgrymu byddai'n well cyflwyno un lwfans cyffredinol. I bob pwrpas, bydd hyn yn cael gwared â'r terfyn uchaf presennol ar gyfer cymorth anfeddygol, fel yr argymhellir gan York. Byddai'r holl Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl ar gael i fyfyrwr ei ddefnyddio i gael cynorthwyydd anfeddygol os ceir tystiolaeth bod angen y cymorth arbennig hwnnw. Pan fydd yr anghenion yn mynd y tu hwnt i uchafswm gwerth cyfunol y lwfansau, bydd angen i'r darparwr Addysg Uwch a'r myfyrwr adolygu'r blaenoriaethau neu geisio cyllid atodol o ffynonellau eraill.

Rhoddir ystyriaeth hefyd i ba un a ddylid cadw teithio cysylltiedig ag anabledd fel cronfa ddewisol ar wahân, ynteu a ddylid gosod terfyn ar yr elfen hon a'i chynnwys yn y trothwyon cymorth cyffredinol.

Bydd angen cyfiawnhau pob cymorth yn llwyr cyn i Cyllid Myfyrwyr Cymru allu cymeradwyo'r cyllid.

**C2**

**A fyddai modd dyfarnu 'pecyn cymorth' Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl yn hytrach na bod angen i bob myfyrwr anabl fynd trwy asesiad anghenion astudio?**

Mae pob myfyrwr sy'n gymwys i gael Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl yn mynd trwy asesiad anghenion astudio. Mae asesiad anghenion astudio'n costio £660 a TAW i drethdalwyr ar gyfer pob myfyrwr. Rydym yn ystyried a yw asesiad o'r fath yn angenrheidiol ym mhob achos ac rydym yn archwilio'r posibilrwydd o gael pecynnau cymorth 'parod' ar gyfer rhai myfyrwr anabl.

Yn ystod asesiad anghenion astudio mae cynghorydd arbenigol yn trafod anabledd y myfyrwr a'r effaith mae'n ei gael, neu'n debygol o'i gael, ar eu hastudiaethau. Caiff yr asesiad hwn ei gynnal ni waeth be fo anabledd neu gyflwr y myfyrwr.

Yn ystod asesiad anghenion astudio, mae'r arbenigwr yn pwysu a mesur pa gymorth ychwanegol mae myfyrwr ei angen i'w cynorthwyo yn ystod eu hastudiaeth. Mae'r

cynghorydd yn llunio adroddiad yn argymhell y cyfarpar a/neu'r cymorth arall a fydd yn helpu'r myfyrwyr gyda'u hastudiaethau.

Er bod yr adroddiadau'n ymwneud yn benodol ag asesiad yr unigolyn, mae Cyllid Myfyrwyr Cymru wedi awgrymu ei fod yn gallu proffwydo pa gymorth a gaiff ei argymhell i fyfyrwyr ag anableddau arbennig neu benodol, ac mae wedi nodi mai'r un cymorth a roddir yn aml ym mhob enghraifft. I ryw raddau, gall yr argymhellion fod yn ymarfer 'copïo a gludo'.

Mewn rhai amgylchiadau, oherwydd natur eu hanabledd ac amgylchiadau'r cwrs maen nhw'n ei astudio, efallai na fydd myfyrwyr angen unrhyw gymorth. Ar gyfer rhai myfyrwyr, y cwbl sydd ei angen yw un darn o gyfarpar. Er enghraifft, efallai mai'r unig beth mae myfyriwr â diabetes ei angen yw oergell, ac na fydd angen mynd trwy asesiad anghenion astudio costus o'r herwydd.

Yn ôl ffigurau answyddogol, mae'r broses asesu anghenion astudio ar hyn o bryd yn cymryd oddeutu 7 wythnos i'w chwblhau, o'r amser caiff y myfyriwr wybod gan Cyllid Myfyrwyr Cymru y dylai drefnu'r apwyntiad i'r adeg caiff Cyllid Myfyrwyr Cymru yr adroddiad terfynol. Dengys y data fod modd i'r broses gymryd hyd at flwyddyn.

Y cynnig yw hyn: ar ôl i Cyllid Myfyrwyr Cymru gael cais am Lwfans i Fyfyrwyr Anabl, byddai disgwyl i'r darparwr Addysg Uwch gynnal proses sgrinio (gan ystyried y math o gwrs). Byddai'r broses sgrinio'n rhoi gwybod i Cyllid Myfyrwyr Cymru a oes angen cynnal asesiad anghenion ffurfiol ai peidio, ynteu a oes modd cynnig pecyn cymorth. Ar ôl cynnal y broses sgrinio, a phan fo hynny'n briodol, byddai Cyllid Myfyrwyr Cymru yn gofyn am gytundeb y myfyriwr i hepgor asesiad anghenion astudio llawn a derbyn y pecyn cymorth mae Cyllid Myfyrwyr Cymru a'r darparwr Addysg Uwch yn ei ystyried yn addas i gwrdd ag anghenion y myfyriwr.

Byddai'r pecynnau'n adlewyrchu anghenion cyfartalog y myfyrwyr, yn dibynnu ar eu hanabledd. Yn aml, mae gan fyfyrwyr ag anableddau arbennig anghenion tebyg, ac yn aml iawn mae'r un math o gymorth o safbwynt Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl yn cael ei ddyrannu ar eu cyfer. Felly, efallai byddai'r asesiad anghenion llawn yn gost ddiangen ac yn arwain at oedi diangen i'r myfyrwyr hyn.

Bydd myfyrwyr yn cael cadw'r hawl i wrthod pecyn safonol a mynd trwy asesiad anghenion astudio llawn. Hefyd, byddai modd i fyfyrwyr sydd wedi derbyn pecyn ofyn am asesiad anghenion unigol yn nes ymlaen, pe bai eu hamgylchiadau'n newid neu pe na bai eu hanghenion yn cael eu cwrdd.

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, byddem ni'n croesawu sylwadau ynghylch a fyddai'r newid hwn o fudd i fyfyrwyr, pa anabledau y gellid cwrdd â'u hanghenion gyda phecyn cymorth addas, ac awgrymiadau ynglŷn â beth fyddai'r pecynnau addas hynny'n ei gynnwys.

**C3**

**A ddylai darparwr Addysg Uwch y myfyriwr fod yn gyfrifol am drefnu cymorth a gaiff ei ariannu gan Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl?**

Mae gan ddarparwyr Addysg Uwch ddyletswydd gofal gyffredinol dros eu myfyrwyr, yn enwedig grwpiau agored i niwed. Byddai'n rhesymol disgwyl i brifysgol y myfyriwr ddarparu'r holl gymorth mae'r myfyriwr ei angen i ddilyn ei gwrs.

Ymhellach, byddai'n rhesymol tybio bydd unrhyw berthynas a gaiff ei hadeiladu rhwng gwasanaeth cymorth i fyfyrwyr y darparwr Addysg Uwch ar y naill law, a'r myfyrwyr ar y llaw arall, yn gwella eu hyder tra maen nhw ar y campws ac yn esgor ar brofiad dysgu mwy pleserus, gan wella cyfleoedd iddyn nhw gyflawni eu nodau.

Ar gyfer y cynnig hwn, mae cymorth a ariennir gan Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl yn cynnwys:

- i. Aseidiadau Anghenion Astudio;
- ii. Cymorth Anfeddygol



(i) Aseidiadau Anghenion Astudio

Yng Nghymru ar hyn o bryd, gall unrhyw ganolfan asesu sydd wedi ei chofrestru gyda'r Grŵp Sicrhau Ansawdd Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl<sup>7</sup> gynnal aseiad anghenion astudio a ariennir gan Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl ar gyfer myfyrrwyr Cymru. Gall myfyrrwyr ddewis unrhyw un o'r canolfannau cofrestredig hyn i gynnal eu hasesiad. Cafodd yr angen ei ffurfioli ar gyfer Cymru ym mis Mawrth 2015<sup>8</sup>.

Mae cyhoeddiad diweddar gan yr Adran Addysg, lle rhoddwyd gwybod eu bod yn bwriadu caffael Canolfannau Asesu Anghenion yn Lloegr, wedi arwain y Grŵp Sicrhau Ansawdd i adolygu ei sefyllfa. Bydd y Grŵp Sicrhau Ansawdd hwn yn dod i ben ddiwedd mis Rhagfyr 2019. Ni chaiff unrhyw gofrestriadau newydd eu derbyn.

Dyfyniad o adroddiad York: '4.56 Yn ôl penaethiaid gwasanaethau anabledd, gall myfyrrwyr na chaiff eu hasesiadau eu cynnal o fewn eu darparwr Addysg Uwch – yn cynnwys myfyrrwyr a gaiff eu hariannu gan Cyllid Myfyrrwyr Lloegr a Cyllid Myfyrrwyr Cymru – fod dan anfantais. Nid yw'r aseswyr bob amser yn deall yn llwyr y cyd-destun dysgu ac maen nhw'n ceisio rhagdybio cystal ag y gallan nhw beth fydd gofynion y cwrs ar y myfyrrwyr.'

**Argymhelliad York:** "dylai Llywodraeth Cymru wrthsefyll y cynnydd mewn canolfannau allgymorth ac asesu anghenion a welir yn Lloegr trwy ailfodelu'r system bresennol ar sail model yr Alban. Dylai canolfannau asesu anghenion gael eu cysylltu â darparwr Addysg Uwch, gan gynorthwyo myfyrrwyr sy'n gwneud cais i'r darparwr Addysg Uwch hwnnw ac sy'n gymwys i gael Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl. Bydd hyn yn cyfyngu ar farchnadoli aseidiadau a bydd yn helpu i sicrhau bod aseswyr yn ystyried gofynion y cwrs ac amgylchedd dysgu'r myfyriwr."

<sup>7</sup><https://dsa-qag.org.uk/about-us/history-dsa-qag>, <https://dsa-qag.org.uk/students/find-assessment-centre> and <https://dsa-qag.org.uk/practitioner/registering-dsa-qag>

<sup>8</sup> <https://www.studentfinancewales.co.uk/media/9266/proposed-changes-to-the-disabled-students-allowances-for-academic-year-2016-17.pdf>

Rydym yn cynnig bydd asesiadau anghenion astudio, yn y dyfodol, yn cael eu darparu trwy gyfrwng darparwr Addysg Uwch y myfyriwr yn unig. Dan eu dyletswydd gofal, bydd darparwyr Addysg Uwch yn gyfrifol am sicrhau ansawdd y gwasanaethau a ariennir gan Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl ac a ddarperir i'w myfyrrwyr. Byddai disgwyl i bob darparwr Addysg Uwch fabwysiadu ei safonau gwasanaeth ei hun.

Gallai canolfan gyswllt ddod i gytundeb gyda'r darparwr Addysg Uwch i gynnal asesiadau. Mae canolfan gyswllt yn golygu canolfan asesu anghenion sy'n gyfreithiol rwym i'r darparwr Addysg Uwch. Byddai'r ganolfan yn llunio cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r darparwr Addysg Uwch. Bydd y cytundeb lefel gwasanaeth yn nodi'r broses ac yn pennu safonau'r gwasanaeth. Bydd y cyfrifoldeb dros fonitro a rheoli ansawdd y gwasanaeth yn gorwedd gyda'r darparwr Addysg Uwch. Pe bai gan fyfyriwr unrhyw bryderon ynghylch ansawdd y gwasanaeth, bydd modd iddyn nhw ddilyn proses gwyno'r darparwr Addysg Uwch. Bydd prosesau archwilio presennol y darparwr Addysg Uwch yn berthnasol i ddarparu'r holl wasanaethau a ariennir gan Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl. Byddai cwynion heb eu datrys yn cael eu cyfeirio at y Dyfarnwr Annibynnol.

Gall y myfyrrwyr naill ai deithio i'r campws Addysg Uwch i gael eu hasesiad neu, yn amodol ar gytundeb, gellir cynnal yr asesiad o bell. Gallai hyn gynnwys asesiad dros Skype neu ddull tebyg. Ymhellach, byddai gan fyfyrrwyr y Brifysgol Agored y dewis o fynd i'r campws Addysg Uwch agosaf neu gymryd rhan mewn asesiad o bell. Hefyd, gellir ystyried defnyddio cyfleusterau allgymorth cyswllt pan fo natur wledig yr ardal yn broblem.

(ii) Cymorth Anfeddygol

Mae Llywodraeth Cymru yn gryf ei barn na ddylai darparu cymorth i fyfyrrwyr agored i niwed gael ei ystyried fel cyfle masnachol.

Rydym yn cynnig rhoi'r cyfrifoldeb o drefnu a sicrhau ansawdd darpariaeth cynorthwydd anfeddygol ar gyfer eu myfyrrwyr ar ddarparwyr Addysg Uwch. Bydd yn rhaid i ddarparwyr cymorth anfeddygol trydydd parti neu allanol wneud cais am gcontractau gyda'r darparwr Addysg Uwch ac ymrwymo i gyrraedd safonau gwasanaeth

y darparwr Addysg Uwch trwy gyfrwng amodau a thelerau y cytunir arnyn nhw. Bydd y darparwr Addysg Uwch yn gyfrifol am sicrhau bod proses gaffael briodol yn cael ei dilyn, yn ogystal â sicrhau gwerth am arian.

**Argymhelliad York:** er mwyn lleihau'r effaith bosibl ar argaeledd darparwyr Cynorthwywyr Anfeddygol, ni ddylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu gofynion proffesiynol Cynorthwywyr Anfeddygol y Grŵp Sicrhau Ansawdd Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl mewn perthynas â gweithwyr proffesiynol yn gweithio oddi mewn i ddarparwyr Addysg Uwch yng Nghymru. Dylai darparwyr Addysg Uwch fod yn gyfrifol am sicrhau ansawdd y ddarpariaeth.

Mae darparwyr Addysg Uwch yn gyrff awtonomaidd ac mae ganddyn nhw eu polisïau dyletswydd gofal eu hunain. Mae darparu cymorth anfeddygol yn rhan allweddol o'r system gymorth sydd ar waith gan ddarparwyr Addysg Uwch ar gyfer eu myfyrwyr, ac mae ganddyn nhw ddyletswydd i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth. Bydd help cynorthwywyr anfeddygol o ffynhonnell fewnol yn cael ei ddarparu am gost.

Ar hyn o bryd, ni all darparwyr Addysg Uwch fodloni eu dyletswydd gofal os caiff cymorth anfeddygol ei ddarparu gan drydydd parti y tu hwnt i reolaeth y darparwr Addysg Uwch. Y cynnig yw bydd yn rhaid i ddarparwyr cymorth anfeddygol a ariennir trwy gyfrwng Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl Cyllid Myfyrwyr Cymru arwyddo cytundeb gyda'r darparwr Addysg Uwch yn glŷn â safon ddisgwyliedig y gwasanaeth. Ni ddylid codi tâl am gymorth anfeddygol ar gyfradd sy'n gwneud y gwasanaeth yn broffidiol.

Ni fydd cyllid Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl yn cael ei roi i bobl ar gyfer darparu cymorth anfeddygol heb fod ganddyn nhw gymwysterau addas a/neu brofiad, nac i bobl heb statws cyflogaeth priodol h.y. rhaid iddyn nhw fod wedi cofrestru gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i dalu treth ac yswiriant gwladol ar eu henillion. Mae hyn yn berthnasol hefyd i gymorth Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl a ddarperir gan aelodau teuluol neu gyfeillion. Disgwylir i Ganolfannau Asesu sicrhau bod yr holl weithwyr cymorth anfeddygol a gaiff eu hargymell ganddyn nhw â statws cyflogaeth priodol a'u bod â chymwysterau addas a/neu brofiad.

**C4**

**A fyddai gwella ymwybyddiaeth o Lwfansau i Fyfirwyr Anabl, yn enwedig mewn ysgolion ac yn y proffesiwn meddygol, yn cynyddu nifer y bobl sy'n eu derbyn?**

Daeth adroddiad ymchwil York o hyd i ddiffyg dealltwriaeth ymhlith ysgolion a cholegau ac o bosibl diffyg parodrwydd i gynorthwyo myfirwyr i gael gafael ar Lwfansau i Fyfirwyr Anabl, oherwydd capasiti. Ymhellach, soniodd rhai myfirwyr a oedd wedi cael anawsterau i gael gafael ar dystiolaeth feddygol am ymwybyddiaeth isel ymhlith y proffesiwn iechyd (meddygon teulu).

Rydym yn gwahodd awgrymiadau ynghylch sut gellir codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o Lwfansau i Fyfirwyr Anabl mewn ysgolion/olegau ac yn y proffesiwn meddygol.

### **Ysgolion/Colegau**

**Argymhelliad York:** er mwyn annog mwy o fyfirwyr ag anableddau mewn ysgolion a cholegau i gael lwfansau, a'u hwyluso i wneud hynny'n ddiraffferth, dylai arweinwyr polisi Lwfansau i Fyfirwyr Anabl gysylltu ag arweinwyr polisi addysg cyn-16 ac ôl-16 i godi ymwybyddiaeth o Lwfansau i Fyfirwyr Anabl ymhlith disgyblion a chanddyn nhw angen cydnabyddedig yn yr ysgol.

Dywedodd nifer o ddarparwyr Addysg Uwch eu bod wedi gweithio llawer gydag ysgolion i wella ymwybyddiaeth o Lwfansau i Bobl Anabl. Roedd hyn yn cynnwys ymweliadau a chyflwyniadau mewn ysgolion, anfon taflenni ac annog staff yr ysgol i gysylltu â thimau anabled os oes ganddyn nhw unrhyw ymholiadau. Fodd bynnag, dengys y dystiolaeth fod angen gwella ymwybyddiaeth o hyd. Cadarnhawyd hyn mewn cyfweiliad a gynhaliwyd gydag athro anghenion addysgol arbennig, lle soniwyd am ddiffyg ymwybyddiaeth ymhlith staff addysgu.

Mae tîm Mewnwelediad Cwsmeriaid y Student Loans Company yn cynnal arolwg blynyddol yn ymwneud â Lwfansau i Fyfirwyr Anabl ar gyfer Cyllid Myfirwyr Cymru. Mae wedi canfod bod ymwybyddiaeth cwsmeriaid o Lwfansau i Fyfirwyr Anabl fel arfer yn isel, neu ddim yn bodoli o gwbl, hyd nes iddyn nhw fynd i'r brifysgol.

Yn ôl data arolwg a gynhaliwyd gan y Student Loans Company yn 2016/17, dim ond 11.5 y cant o fyfirwyr a ddaeth i wybod am Lwfansau i Fyfirwyr Anabl trwy eu hysgolion neu eu colegau.

'Roeddwn i wedi clywed am Lwfansau i Fyfirwyr Anabl, ond doeddwn i ddim yn gwybod beth oedden nhw na sut oedd myfirwyr i fod i wneud cais amdany'n nhw...'chwaith, does gennym ni mo'r capasiti i gynorthwyo myfirwyr yn yr un ffordd â phrifysgolion, felly mae ysgolion yn tueddu i adael hynny i staff mewn prifysgolion.' (Athro Anghenion Addysgol Arbennig, adroddiad ymchwil York)

Yn ôl y sôn, mae pobl yn credu nad yw'r lwfansau'n berthnasol iddyn nhw, gan deimlo mai ar gyfer myfirwyr ag anableddau corfforol maen nhw. Nid yw rhai myfirwyr yn ystyried cyflyrau eraill a gaiff eu cwmpasu gan Lwfansau i Fyfirwyr Anabl (yn unol â diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb) fel 'anableddau' e.e. dyslecsia. Mae adroddiad ymchwil York yn dyfynnu myfyriwr a ddywedodd: "Roeddwn i'n meddwl ei fod yn gyflwr byddai'n rhaid i mi ymdopi ag ef, doedd gen i ddim syniad byddai modd i mi gael help tuag ato, mae wedi bod yn anhygoel." (myfyriwr ag anhwylder deubegynol).

### **Darparu Tystiolaeth Feddygol**

Rhaid i ymgeiswyr am Lwfansau i Fyfirwyr Anabl fodloni'r diffiniad o 'anabl' a geir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a chyflwyno tystiolaeth feddygol neu ddiagnostig i ategu eu cais i Cyllid Myfirwyr Cymru am Lwfans i Fyfirwyr Anabl.

Dengys data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ar gyfer 2015/16 fwch o 7.4 y cant rhwng y myfirwyr hynny a wnaeth ddatgan anabledd a'r rhai a gafodd Lwfansau i Fyfirwyr Anabl ar gyfer 2015/16.

Rhaid i'r holl fyfirwyr â chyflwr corfforol neu feddyliol ddarparu tystiolaeth feddygol gan feddyg teulu i brofi eu bod yn gymwys i gael Lwfans i Fyfirwyr Anabl. Fodd bynnag, mae myfirwyr, rhieni ac ymarferwyr yn dweud yn rheolaidd fod cael gafael ar dystiolaeth feddygol yn gostus ac yn anodd dros ben. Ymddengys fod yna ddiffyg dealltwriaeth ymhlith meddygon teulu o'r ffordd mae'r anabledd yn effeithio ar allu'r myfyriwr i astudio ar lefel addysg uwch o ddydd i ddydd.

Dyfyniad o adroddiad York – ‘Yn wreiddiol, dywedodd (y meddyg teulu) wrthyf i nad oedd fy salwch yn anabledd a gwrthododd lenwi'r ffurflen. Yna, es yn ôl gyda mwy o wybodaeth ac yn y pen draw sylweddolodd beth oedd y pwrpas, ond roedd yn brofiad annifyr iawn.’ (Myfyriwr â dyslecsia ac iselder).

Cytunir bod angen cyfleu negeseuon yn well a chynyddu ymwybyddiaeth o Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl. Rhaid i gymhwysra am Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl gael ei ystyried fel cyfraniad cadarnhaol at gynorthwyo'r myfyrrwyr trwy eu cwrs, yn hytrach nag fel proses o brofi anfantais neu anallu. Dylid canolbwyntio ar sut gall Cyllid Myfyrrwyr Cymru helpu ac annog ceisiadau; ac er bod nifer o fesurau ymarferol yn cael eu rhoi ar waith yn sgil adolygiad York, er enghraifft fideos defnyddiol yn sôn am sut i wneud cais am Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl a sut fath o dystiolaeth sy'n dderbyniol, byddem ni'n croesawu awgrymiadau ynglŷn â sut gallwn ni nid yn unig godi ymwybyddiaeth o Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl, ond hefyd eich barn ynghylch ymgyrchoedd wedi eu targedu a negeseuon wedi eu teilwra.